Mawrth 2008 **Rhifyn 165**

O Arglwydd y gwanwyn, anadla drwy'r tir
a deffro ein daear o gwsg sydd mor hir,
boed gwres anorchfygol dy gariad dy hun
yn ffrwydro gorfoledd yng nghalon pob un

Gair gan y Bugail

Hon fydd fy llith olaf i *Perthyn.* Dyna frawddeg fer, syml, uniongyrchol. Yn ystod mis Mawrth fe fydd ‘olaf’neu ‘tro olaf’ yn eiriau cyffredin i mi ac fe fydd ‘gorffen’ yn dod yn brofiad o deimladau cymysg. Ar un olwg y maent yn eiriau terfynol iawn ac efallai y byddai geiriau fel ‘diwedd cyfnod’ neu ‘ddiwedd tymor’ yn fwy caredig a derbyniol.

Nid difeddwl na damweiniol oedd dewis Sul y Pasg i orffen fy ngweinidogaeth yn eich plith. Mae sawl rheswm tros ddweud hynny. Yn bennaf, y mae’n ŵyl lawen, yn llawn lliw a bywyd. Yr ydym yn ystod y Grawys yn rhoi sylw i ‘ffordd y groes’ a’r dioddefaint gan gofio fod y daith i Jerwsalem yn llawn ofnau a phryderon, gelyniaeth a rhagfarnau, unigrwydd a siom. A dyna eiriau sydd yn ystyrlon iawn yn ein byd cyfoes. Ac nid ydynt yn eiriau di-ystyr i’r rhai sy’n ceisio gwasanaethu’r Arglwydd ymhlith ei bobl chwaith, heb son am y mannau ple mae erledigaeth yn fwy amlwg na difaterwch. Ond fe ddaw Gŵyl y Pasg yn llawn gorfoledd a gobaith. Mae Iesu yn fyw! Os na all Cristnogion *ddathlu* gan wybod ein bod wedi ein meddiannu gan Dduw sydd yn ein llenwi â llawenydd, pwy all ddathlu ? Dyna un rheswm am ‘orffen’ ar Sul y Pasg. Mae geiriau fel ‘olaf’ neu ‘gorffen’ yn eiriau na fedrwn ni ddim ond gwenu wrth eu dweud.

Rheswm arall dros ddewis Sul y Pasg yw fod y ffordd yr ydym yn dathlu’r Pasg yn ein rhyddhau o afael traddodiad ac arferion sydd yn cyfyngu cred. Fe fyddwn wedi cael sawl cyfle i groesi ffiniau enwadaeth a rhannu gyda’n cyd-Gristnogion ac wedi cael cerdded gyda’n gilydd ar y stryd. Fe fyddwn hefyd wedi cael digon o gyfle i ehangu gorwelion ein ffydd, rhag ei chyfyngu i oedfa Sul (edrychwch ar ‘Raglen y Grawys a’r Pasg) a muriau’r capel. Fe fyddwn hefyd, wrth gwrs, wedi dechrau ein hoedfa Sul y Pasg yn yr ardd ac fe fydd hynny yn ein hatgoffa nad oes teml nac adeilad i gynnwys y Duw byw. Yn ogystal a hynny fe fyddwn yn dathlu Cymun Emaus yn y Morlan, mewn awyrgylch llai ffurfiol ac yn y man ple mae’r ffin rhwng yr eglwys a’r byd yn denau iawn. Rhodio’r ffiniau

hynny a wnaeth Iesu. Ar ffin felly y bu farw. Ac ar ffin felly yr atgyfododd.

Mewn geiriau eraill mae Sul y Pasg yn wahoddiad i gofleidio holl brofiadau y rhai sydd yn dathlu ei atgyfodiad.Ac fe fydd casglu wyau Pasg yng Nghoed Penglais yn nghwmni'r plant yn gytgan i'r cyfan eto eleni !

Fe hoffwn awgrymu un rheswm arall tros ddewis Sul y Pasg i ddod â'm gweinidogaeth i ben: ni fydd amheuaeth ar bwy fydd y sylw. Mae Gweinidogion yn mynd a dod. Mae i eglwys ei thrai a'i llanw. Mae iddi ei chryfder a'i gwendid yn ogystal a'i gobeithion a'i phryderon. Ym mywyd yr eglwys hefyd y mae llwyddiant a'i methiant, ennill a cholli. Ac mae hynny yn wir am weinidogion. Ond mae'r Pasg yn tynnu ein sylw oddi ar yr eglwys a'i harweinwyr a'i haelodau – ac yn diolch mai Iesu sydd yn y canol, yn garreg sylfaen ac yn Ben. Ei eglwys Ef ydyw, nid ein capel ni. Bendith a braint yw credu hynny. Mae'r Pasg yn ein hadnewyddu ac yn ein hadeiladu i fod yn Bobl y Pasg – rhag llaesu dwylo, rhag anghofio, rhag anobeithio, rhag digaloni. Oherwydd mae gennym Grist byw i'w ddilyn ac i fwynhau ei gwmni i'r dyfodol.

Yn gwbwl fwriadol nid wyf wedi dechrau mynegi y diolch a'r gwerthfawrogiad sydd yn fy nghalon i ac Eirwen, na dechrau meddwl am y chwithdod a'r hiraeth o adael ffrindiau – ac y mae ffrindiau yn dweud mwy na 'chyd-aelodau'. Fe ddaw cyfle i wneud hynny eto, er na fydd geiriau yn ddigon.

Pryderi



Gweddi

Y Crist byw,
Arglwydd Iesu Grist,
trwy dy atgyfodiad nerthol
gorchfygaist bechod ac angau
a gwnaethost bob peth yn newydd.

Tyrd atom i'n llenwi a'th fywyd atgyfodedig dy hun,
i'n rhyddhau ni o bob digalondid
ac i'n tanio ni â gorfoledd a gobaith y Pasg.

Fel y daethost at Mair yn yr ardd
a throi ei dagrau yn llawenydd,
tyrd at bob un sydd mewn trallod,
profedigaeth ac unigrwydd,
a chofleidia hwy yn dy gariad.

Fel y daethost at y disgyblion ar lan y môr
a throi eu hofn yn hyder newydd,
tyrd at dy eglwys ac at dy bobl heddiw
a gwna ni yn frwd a gwrol yn ein cenhadaeth.

Fel y daethost at Tomos yr amheuwr
a throi ei amheuaeth yn argyhoeddiad sicr
tyrd at y rhai sydd yn teimlo'u ffydd yn wan
a'r rhai sy'n cael anhawster i gredu
a rhoi iddynt sicrwydd llawen ynot ti.

Fel y daethost at y ddau ar ffordd Emaus
a throi eu hanobaith yn orfoledd,
tyrd at y rhai sydd yn teimlo bywyd yn ddi-bwrpas
a bydd yn gwmni iddynt ar eu taith.

Tyrd atom bob un
a thrwy rym dy fywyd atgyfodedig
cod ni o'n gwendid a'n methiant
a rhoi i ni hyder yn ein ffydd
a gorfoledd yn dy waith.

Elfed ap Nefydd Roberts

Sikelel' iAfrika

Wrth fynd yn hŷn rwy'n sylweddoli'n fwy fwy sut mae pobl gyffredin y ffydd wedi dylanwadu arnaf i. Dydw i ddim yn ddiwinydd nac yn deall crefydd bob amser ond rwy'n siwr fod unigolion o ffydd wedi gwneud mwy o argraff arnaf na fyddent erioed yn amgyffred.

Cefais esiampl ifanc ar aelwyd Mamgu a Dadcu yn Abercraf. Roeddent yn llwm ond yn dangos eu ffydd, nid yn unig yn y capel a'i weithgareddau, ond trwy wasanaethu pawb yn y gymdogaeth, hyd yn oed yn eu henaint a'u llesgedd. Cofiaf Mrs. Harry wedyn, a ofalodd mor dyner am ei gŵr a oedd megis plentyn am flynyddoedd - a gwnaeth hyn yn gyhoeddus heb ofidio am sylwadau pobl eraill.

Ond heddiw, yn bennaf, rwy'n cofio Olwen R.E. Griffith. Yn blentyn ifanc iawn clywais hi yn adrodd stori i'r plant, o bulpud Seilo, am Rosa Parks yn gwrthod ildio sêt ar y bws i berson gwyn. A dysgodd Mrs. R.E. ni'r plant i ganu *Nkosi Sikelel' iAfrika* ymhell cyn i'r anthem ddod yn boblogaidd yma.

Flynyddoedd wedyn, pan roedd Olwen yn ei gwaeledd olaf, roedd hi'n dal yn esiampl. Roeddwn mewn gwely gyferbyn â hi ar Ward Meurig ym Mronglais. Peth olaf bob nos dywedai wrtha i, "Nos da, Auriel" ac wedyn mewn llais tawel, sicr canai emyn neu ddwy. Yn y bore dywedai, "Ro'n i'n meddwl mod 'n mynd i Abergofiant neithiwr"- nid yn hunandosturiol ond yn falch am gael gweld un dydd arall.

Mae'r bobl hyn wedi fy nysgu fod dilyn Iesu yn ***ONGOING***. 'Dy'n ni ddim yn cael ffydd a dyna fe, bydd capel unwaith y Sul yn gwneud y tric wedyn. Iddynt hwy roedd ffydd yn golygu dilyn esiampl Iesu ta beth oedd yr amgylchiadau. Mae'n hawdd credu eu bod yn rhy hen, yn rhy sâl, yn rhy dwp neu yn rhy dlawd i fod o werth. Ond daeth Iesu ar gyfer pawb, nid dim ond yr ifanc, yr iach, y clyfar a'r cyfoethog. **IE PAWB**, beth bynnag yr amgylchiadau. Darllenwch y Testament Newydd os nad ydych yn fy nghredu!

Alla i ddim addo wynebu pob amgylchiad mor ddewr â'r criw a wnaeth gymaint o argraff arnaf. Ond rwy'n addo ceisio cerdded ochr yn ochr gyda Iesu bob dydd a dweud yn dawel ond yn sicr bob nos (gan na allaf ganu'n swynol fel Mrs. R.E.*)

* *It's goodnight from me… and it's goodnight from HIM!*

Auriel Fenton

Myfyrdod

Gŵyl Dewi. Dysgodd y proffwyd Eseciel i'w bobl i roi'r lle canolog i Dduw ym mhob peth. Nid oes dim yn deilwng o addoliad ond Duw - y Duw Sanctaidd. Felly, rhoes Duw gysegr i'w bobl a galwodd hwy i lynu wrth y ddelfryd fawr hon ac i ddyfnhau y berthynas â Duw yn gyson. O'r llwyfan hwn y daeth i ni ein Harglwydd Iesu Grist, a hebddo Ef, ni buasai'r gair 'sant' yn ein hiaith. ac ni buasai gennym efengyl i'n gwlad. Y seintiau, mor bell yn ôl â'r bumed a'r chweched ganrif o oed Crist, trwy lafur mawr, am ddwy ganrif fwy neu lai, a roes y seiliau a'r safonau Cristnogol in gwlad a rhoddi i ni hefyd ein nawddsant Dewi.

Y Pasg. Roedd y disgyblion yn ofnadwy o drist ac ofnus ar Ddydd Gwener y Groglith. Paham? Ond yna ar fore'r Pasg daeth newid mawr drostynt. Paham? Pwy oedd y rhai a welodd y Crist byw? Ceisio cyfleu llawenydd a gorfoledd y Pasg a hyn yn arwain i sôn am addewid fawr yr Iesu i ni, "Yn wir yr wyf gyda chwi bob amser". Os byddwn yn ei garu Ef ac yn ei addoli'n gyson yna byddwn fyw am byth gydag Ef yn y nefoedd. Dyma'r bywyd newydd y gall pob un ohonom eu gael os derbyniwn Crist yn gyfaill ac yn gwmni i ni ei garu Ef â'n holl galon.

Rhiannon Hughes

Newyddion

Braf iawn yw cael croesawu **Carys Davies** yn ôl i Gymru o Rydychen, a'i chroesawu yn ol i Gapel y Morfa. Bu Rhys a Carys yn weithgar yng Nghapel y Morfa am flynyddoedd cyn i Rees gael ei benodi i gadair Chichele mewn Hanes yn Rhydychen. Bu ei golli mor ifanc yn golled aruthrol i'w deulu ac i Gymru yn ogystal Hanes fel maes yn gyffredinol. Y mae Carys wedi cartrefu yn y Dolau ond fe fydd yn siwr o fod yn teithio i Gaerdydd yn aml i weld y plant a Mared, ei wyres.

Llongyfarchiadau…

...i Eleri a Steve ar enedigaeth **Catrin Alaw** ar Chwefror 7, wyres i Enid a gor-wyres i Geraint a Mattie.
...i **Morlan** ar dderbyn tystysgrif Clod Uchel yn y categori *Menter Gymdeithasol* yng ngwobrau cyntaf Menter Aberystwyth a Barclays.
...i **Catrin Morgan** ar ei pherfformaid gwych yn **Y Pair** gyda Chwmni Theatr Cymru ac yn y **Teulu** ar S4C.
... i **Bethan Clwyd a Brett** ar enedigaeth eu cyntaf anedig, **Twm Clwyd**, yng Nghaerdydd. Ŵyr cyntaf i Gwyneth Clwyd a Robert Haydn Jones, Ffordd Llanbadarn.

Dymuno'n dda. Anfonwn ein cofion at y rhai sydd wedi bod **yn yr ysbyty** yn ystod y mis: **Wyn Thomas** (Ebeseser), **Menna Monday** (sydd yn ysbyty Tregaron) a **Hywel Roderick** sydd wedi dechrau cyfnod o driniaeth ym Mronglais.

Newyddion Ebeneser

Mae'n anodd credu bod bron blwyddyn wedi pasio ers cael y newydd trist bod Pryderi ac Eirwen yn gadael Aberystwyth, ac erbyn hyn mae'r dyddiad yn nesáu a threfniadau mewn llaw a chyfle i ddiolch iddynt am eu holl wasanaeth a'u harweiniad i bawb ohonom dros 19 mlynedd. Byddwn ni yn Ebeneser yn ffarwelio â hwynt yn swyddogol brynhawn Sul, 2 Mawrth (Oedfa Gymun) ac yn apelio i'r aelodau a'r gwrandawyr sydd yn addoli ar brynhawn Sul yn y capel bach i fod yn bresennol.

Mae Mr Wyn Thomas, Loveden Cottage, adref ac yn teimlo'n well ar ôl ysbaid yn ysbyty Bronglais. Cofion gorau atoch a brysiwch i wella, er mwyn cael eich cwmni chi, Glenys a Karen yn ôl gyda ni ar brynhawn Sul.

Anfonwn ein cofion gorau hefyd at bawb o'r aelodau a'n ffrindiau sydd yng Nghartrefi Bodlondeb, Cwmcynfelin ac Allt-y-Mynydd, ac eraill sydd yn gaeth i'w haelwydydd a'r rhai sydd mewn anhwylder iechyd ar hyn o bryd. Ar 28 lonawr bu farw Mrs Annie Mary Davies (Bodlondeb) yn Ysbyty Bronglais yn 91 oed. Roedd hi wedi dod o'i chartref yn Ystumtuen i Bodlondeb 11 mlynedd yn ôl ac roedd bob amser yn holi am y Sul yn Ebeneser. Bu'n garedig iawn dros y blynyddoedd tuag at ei chyd-drigolion yn y Cartref. Bydd chwithdod mawr ar ei hôl yno.

Agor Drysau – Gŵyl Theatr Ryngwladol i Gynulleidfaoedd Ifanc 11-15 Mawrth 2008

Dyma'r pumed Gŵyl *Agor Drysau* i Arad Goch ei threfnu. Eleni croesewir cwmnïau o Wlad Belg, Denmarc, Ffrainc, Iwerddon, Lloegr a Chymru i berfformio yn Aberystwyth. Mae'n siawns i weld rhai o gynyrchiadau gorau Ewrop yma ar ein stepen drws ein hunain. Mae tipyn o'r cynyrchiadau eleni yn ddi-iaith gyda cherddoriaeth yn chwarae rhan allweddol ynddynt – mae'n hynod cymaint a ellir ei gyfleu heb yngan yr un gair!

Bydd perfformiad cyhoeddus cyntaf yr Ŵyl yn y Morlan. Cwmni'r Frân Wen, sydd â'i gartref yn Sir Fôn, fydd yn perfformio **Johnny Delaney**, gyda Owen Arwyn yn chwarae'r brif ran. Hanes gwir a geir yn y ddrama ddirdynnol hon, hanes sy'n frawychus o gyffredin heddiw. Bu farw Johnny Delaney yn 2003 ar gyrion Ellesmere Port, wedi i griw o fechgyn ifanc adweithio yn erbyn ei acen Wyddelig ac ymosod arno. Saif story Johnny fel atgof parhaus o'r ffordd y gall y rhagfarnau hiliol hynny sy'n dal i oroesi yn ein cymdeithas arwain at drais di-feddwl a cholli bywyd. Perfformir y ddrama yn Saesneg. Mae'n para awr ac mae'n addas i bawb dros 13. Mae tocynnau (£7/£8) ar gael o'r Morlan neu drwy ffonio Arad Goch 617998.

Un o gynyrchiadau'r ŵyl yw hon – mae yna arlwy enfawr i bob oed. Ceir manylion llawn ar wefan yr Ŵyl www.agordrysau-openingdoors.org neu medrwch gael taflen o Arad Goch (mae rhain hefyd mewn nifer o leoliadau drwy'r dre gan gynnwys Morlan, Llyfrgell y Dre a'r Ganolfan Dwristiaeth).

Gyda grwp o 20 o bobl fe fe fydd modd cael tocyn am hanner y pris, sef £4.00. Enwau os gwelwch yn dda i Ann Davies.

Llanw: dathlu'r Atgyfodiad
Llangrannog, 25-28 mawrth 2008

Gŵyl er mwyn dod â Christnogion at ei gilydd er mwyn dathlu a dyfnhau ein perthynas gyda'r Duw byw yw *Llanw*. Fe leolir yng ngwersyll Llangrannog. Fe fydd yna gyfle i gymdeithasu, i ddysgu ac i addoli gyda'n cyd-Gristnogion. Mae'r ŵyl ar gyfer pawb sydd rhwng 9 a 900 mlwydd oed, does dim esgus dros beidio dod! Dewch i fwynhau!

Cynhelir oedfa bob bore a phob nos, ac fe fydd cyfle i fanteisio ar gyfleusterau anturus Gwersyll Llangrannog yn ystod y dydd. Mae costau y gweithgareddau ac yswiriant personol wedi'u cynnwys yn y pris. Bydd yn ŵyl deuluol ar gyfer holl deulu Crist.

Gall unigolion rhwng 14 a 17 mlwydd oed fynychu'r ŵyl heb eu rhieni os yw Capel neu Warchodwr yn gyfrifol amdano.

Prisiau
Oedolyn / ieuenctid hŷn: £145
Plant 8-15 oed: £125
Plant 3-7 oed: £80
Plant dan 3 oed: am ddim
Ymwelwyr dyddiol (yn cynnwys cinio, te, swper a gweithgareddau Llangrannog i'r plant): £35
Ymwelwyr dyddiol i'r sesiynnau yn unig: £15

Am fwy o fanylion e-bostiwch ymholiadau@llanw.org neu ffoniwch Meirion Morris ar 01745 870601

Rhaglen y Grawys a'r Pasg yng Nghapel y Morfa a'r Morlan

Nos Fawrth 26 Chwefror am 8.00 yn y Morlan
Chwilio am Dduw

Nos Iau 28 Chwefror 7.00 Festri Capel y Morfa *(Undebol)*
Myfyrdodau'r Grawys: Effesiaid

Dydd Sadwrn 1 Fawrth 10.00 – 12.00
Bore Coffi Gŵyl Ddewi gydag adloniant

Dydd Sul 2 Fawrth
Bore: ***Gwasanaeth Gŵyl Ddewi plant ac Ieuenctid***
Hwyr: ***Gwinllan a roddwyd***

Nos Fawrth 4ydd Mawrth am 8.00 yn y Morlan
Chwilio am Dduw

Dydd Sul 9 Mawrth
Gwasanaethir gan y ***Parchedig Catrin Roberts****, Caerdydd*

Nos Fawrth 11 Mawrth am 8.00 yn y Morlan
Chwilio am Dduw

Nos Fercher 12 Mawrth y Morlan
Gwyddoniaeth a Christnogaeth
Darlith gan Dr. Neil Messer, Prifysgol Llanbed
(Y drydedd ddarlith yn y gyfres *Gwyddoniaeth a Chrefydd*)

Nos Iau 13 Mawrth am 7.00 ym Methel
Myfyrdodau'r Grawys: Effesiaid

Dydd Sul 16 Mawrth (Sul y Blodau)
Bore: ***Hosana***
Hwyr: ***Yr Wythnos Fawr***

Dydd Llun 17 Mawrth am 5.30- 6.00 yn y Morlan
I'r holl fyd
Cyflwyniad y Pasg gan Glwb Hwyl Hwyr

Dydd Llun 17 Mawrth am 7.00

Gorsafoedd y Groes

Cyfle i ddilyn gorsafoedd y Groes yn Eglwys Sant Gwenfrewi

Nos Fercher 19 Mawrth am 8.00 yn y Morlan

Yr wythnos hon

Doniau lleol trwy gyfrwng cerddoriaeth, celf a cherdd yn cofio Wythnos y Groglith. £2.00

Nos Iau 20 Mawrth am 7.00 yng Nghapel y Morfa

Oedfa Gymun Undebol (ddwy-ieithog)

Pregethir gan y Parchedig Andy John, Aberaeron

Bore Gwener y Groglith am 10.00 yn Sant Paul

Gwasanaeth Cymraeg Undebol

Ac am 11.15

Gorymdaith y Groglith

Dydd Sul y Pasg

Cododd Iesu!

Oedfa yn dechrau yn yr ardd.

Hwyr (yn y Morlan)**:**

Cymun Emaus

Dydd Llun y Pasg

Helfa wyau Pasg

Yng Nghoed Penglais. Dechrau o'r Morlan am 10.30

Dydd Sul 30 Mawrth

Gwasanaethir gan y Parchedig W.J.Edwards

Yn eisiau

i arwain **Clwb Hwyl Hwyr**:

dau berson brwdfrydig sydd yn hoff o gwmni plant ac yn awyddus i gynnal un o Glybiau Plant mwyaf llwyddiannus Cymru

Pob dydd Llun ar ol yr ysgol yn ystod y tymor….
dau sesiwn ar ôl y Pasg; ac yna'r ymweliad â'r Bala ym mis Mehefin.

Cysylltwch, os gwelwch yn dda, naill ai â

Mary Jones Morris (623464) neu
Eirwen Jones (617996)

Ai dyma all fod eich cyfraniad arbennig
i fywyd yr eglwys yn ystod gweddill y flwyddyn ?

Dyddiadur Mawrth 2008

Gwasanaethau'r Sul – Y Morfa ac Ebeneser

2 Oedfa Gwyl Ddewi y Plant yn y bore.
Dathlu'r etifeddiaeth (hwyr)
9 Parchedig Catrin Roberts, Caerdydd
16 Bugail: Sul y Blodau
23 Sul y Pasg. Cymun Emaus yn yr hwyr yn y Morlan.
30 Parchedig W.J.Edwards, Bow Street

Bore Mawrth: **Gweddi a Choffi**
Nos Iau: **Myfyrdodau undebol y Garawys**

Cymdeithas y Morfa - Sadwrn Mawrth 1af.
Bore Coffi Gŵyl Ddewi yn y Morlan
yng nghwmni telynorion, Bethan Bryn, Jean Moelwyn Hughes, Megan Hughes ac Elain Jones.

Mawrth 19 am 2.30 ***Tro i'r Wladfa*** yng nghwmni Elvey Macdonald. Cyfarfod Blynyddol i ddilyn.

Dydd Llun Mawrth 3
Cinio Bara a Chaws yn Neuadd y Plwyf.

Mawrth 7 am 2.00 yn Eglwys Sant Paul

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd.

Swyddogaethau Mawrth 2008

Blaenor y mis: Eleri Davies
Porthorion: Wyn Hughes, Alun Morris, Mary Fitter

Ebeneser Tomi Morgan

Blodau'r Cysegr

2	Eleri Davies	Megan J. Evans
9	Ifan a Jean Moelwyn Hughes	Joyce Knight
16	Gwenlais Jones	Susan Hughes
23	Beti Roberts	Susan Hughes
30	Mary Fitter, Peris Edwards	Llinos a Rhiannon Hughes

Cynorthwyr Llestri Cymun

(Nos Iau Mawrth 20 a nos Sul y Pasg)
Beryl Davies, Mary Fitter, Mary Jones, Beryl Roberts

Cynorthwywyr ariannol

2	Beti Roberts, Blodwen Williams
9	Alun a Mary Morris
16	Meirion Morgan, David Harris
23	Brian Thomas, Dafydd M. Evans
30	Glenys James, Miriam Garratt

Tregerddan

30 Ann Davies a Gwenan Creunant.

Golygyddion y mis hwn yw Hywel Lloyd a Laurie Wright. Cyfraniadau ar gyfer rhifyn Ebrill, os gwelwch yn dda, at Siân Eleri ac Enid Jones neu'r Bugail erbyn dydd Gwener, 21 Mawrth